# Wythnos Hinsawdd Cymru 2023



Wythnos Hinsawdd Cymru 2023 –

## Pecyn Trefnwyr Sgyrsiau am yr Hinsawdd (Rhag i Ion)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad

Ar ôl llwyddiant y digwyddiadau ymylol a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru 2022, bydd rhaglen allgymorth debyg, "Sgyrsiau am yr Hinsawdd", yn cael ei threfnu i'w chynnal cyn, yn ystod ac ar ôl Wythnos Hinsawdd Cymru eleni. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ac arian i sefydliadau sydd â diddordeb mewn cynnal Sgyrsiau am yr Hinsawdd gydag aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, a gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig ledled Cymru i drafod "sut i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg?", a'r cysylltiadau rhwng gweithredu dros y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng costau byw.

Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.climateweek.gov.wales/CY/pages/Climate_conversations

Bwriad y Sgyrsiau am yr Hinsawdd fydd casglu cymaint o dystiolaeth â phosibl er mwyn cefnogi ymgynghoriaeth 'Fframwaith Pontio Teg' newydd, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r hyn mae tegwch o fewn cyd-destun hinsawdd yn ei olygu i ddiwydiant a busnes, rhanbarthau, cymunedau ac aelwydydd ledled Cymru, ac er mwyn sicrhau bod safbwyntiau cyn nifer o bobl â phosibl yn cael eu clywed. Bydd y Fframwaith Pontio Teg yn helpu i gydlynu camau gweithredu dros yr hinsawdd, a sicrhau bod datrysiadau ar gyfer y cyfnod pontio at sero net yn deg, a bod neb yn mynd yn angof. Bydd prif wersi'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn cael eu crynhoi mewn adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2024, ochr yn ochr â chanfyddiadau ymgynghoriad ar-lein Llywodraeth Cymru.

Bydd y digwyddiadau'n blaenoriaethu sgyrsiau gyda phobl nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â sgyrsiau am yr hinsawdd, a grwpiau a chymunedau cymdeithasol y mae'r newid yn yr hinsawdd yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Bydd canlyniadau'r sgyrsiau hyn yn helpu i lywio polisïau'r dyfodol ar gyfer addasu a mynd i'r afael a'r newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod effeithiau cadarnhaol a negyddol yn cael eu dosbarthu'n deg.

Croesewir ceisiadau i gynnal digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd gan sefydliadau sydd â chysylltiadau â grwpiau cymunedol a gwirfoddol, rhwydweithiau sectorau a busnes, llywodraeth leol a phartneriaethau cymunedol, darparwyr addysg sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, ymysg eraill. Blaenoriaethir ceisiadau gan sefydliadau sydd â chysylltiadau â:

- Grwpiau ymylol (e.e. pobl a grwpiau sydd wedi'u hallgáu o fywyd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu wleidyddol prif ffrwd oherwydd ffactorau fel hil, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd corfforol a meddyliol, crefydd, credoau gwleidyddol neu ddiwylliannol, oed, rhywedd, neu statws ariannol).
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol
- Plant a phobl ifanc
- Ffermwyr a grwpiau cymunedau gwledig
- Grwpiau a chymunedau economaidd-gymdeithasol is
- Cymunedau Cymraeg eu hiaith
- Pobl sy'n byw dan amgylchiadau ansicr (e.e. unigolion sy'n profi digartrefedd neu ddaliadaeth tai tymor byr)
- Unigolion na chlywir eu barn fel arall




Rydych wedi cael y pecyn hwn oherwydd mae eich cais i gynnal digwyddiad Sgyrsiau am yr Hinsawdd wedi'i nodi'n briodol i'w gynnwys fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru 2023. Bwriad cynnwys y pecyn trefnwyr yw cynnig canllaw defnyddiol i drefnwyr, nid eich cyfyngu o ran sut rydych yn dymuno cynnal eich digwyddiad eich hun. Mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

1. Trosolwg o'r newid yn yr hinsawdd, pontio teg a thegwch
2. Cyflwyniad i'r drafft **'Fframwaith Pontio Teg'** newydd
3. Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich sgyrsiau am yr hinsawdd
    - Fformat, arddull ac amseroedd
    - Hyrwyddo eich digwyddiad
    - Cymorth ariannol
    - Rhannu adborth o'ch digwyddiad
    - Sut fydd adborth o'ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar ôl darllen y pecyn hwn, mae croeso ichi gysylltu â'r tîm drwy walesclimateweek@freshwater.co.uk

# 1. Trosolwg o'r newid yn yr hinsawdd, pontio teg a thegwch

## Pam mae tymereddau'n codi?

- Yr hinsawdd yw'r tywydd cyfartaledd mewn lleoliad dros sawl blwyddyn. Newid yn yr hinsawdd yw newid yn yr amodau cyfartaledd.
- Mae rhai newidiadau yn yr hinsawdd yn naturiol, ac maent fel arfer yn digwydd dros gyfnodau hir o amser. Ond mae gweithgareddau dynol yn cyflymu'r newidiadau. Mae newidiadau a fyddai fel arfer yn digwydd dros nifer o filoedd o flynyddoedd yn digwydd dros ddegawdau.
- Mae tymereddau'r byd yn codi, ac mae newid yn yr hinsawdd bellach yn bygwth pob agwedd ar fywyd dyn. Mae'r newid cyflym yn yr hinsawdd rydym yn ei brofi ar hyn o bryd wedi'i achosi gan bobl yn defnyddio olew, nwy a glo ar gyfer eu cartrefi, ffatrïoedd a thrafnidiaeth.
- Pan fo'r tanwyddau ffosil hyn yn llosgi, maent yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr - carbon deuocsid (CO2) yn bennaf. Mae'r nwyon hyn yn dal gwres yr haul, ac yn achosi cynnydd yn nhymheredd y blaned.
- Erbyn heddiw, mae'r byd tua 1.2C yn gynhesach nag yr oedd yn yr 19eg Ganrif - ac mae faint o CO2 sydd yn yr atmosffer wedi cynyddu 50%. Rhaid inni arafu'r cynnydd mewn tymheredd, a'i gadw at 1.5C os ydym am osgoi goblygiadau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd.

## Effaith cynnydd mewn tymereddau

- Mae tymereddau nas gwelwyd o'r blaen yn achosi tanau gwyllt, yn dinistrio coedwigoedd ac eiddo a'n lladd bywyd gwyllt. Mae hyn yn rhyddhau mwy o garbon deuocsid i'r aer, gan waethygu'r newid yn yr hinsawdd. Mae sychder yn bygwth ein cyflenwadau dŵr, bywyd gwyllt a'r bwyd rydym yn ei gynhyrchu.
- Mae llifogydd sylweddol yn difrodi tai, bywoliaethau a chynefinoedd. Mae lefelau'r môr yn codi, ac os bydd hyn yn parhau, bydd cynnydd gwerth 2.5 metr erbyn 2100 yn bosibl. Gall tua 400 miliwn o bobl ledled y byd fod yn byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl cyson o lifogydd.
- Mae gwyddonwyr bellach yn cytuno mai pobl sy'n gyfrifol am y newidiadau hyn. Er bod y newid yn yr hinsawdd yn fater byd-eang, mae bygythiad i Gymru hefyd, gyda'r patrymau tywydd newidiol eisoes yn cael effaith ar ein cartrefi, cymunedau a'r amgylchedd.

## Rôl pwy yw gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd?

- Mae angen i Lywodraeth, diwydiant a busnesau fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ond yn ôl gwyddonwyr, bydd newidiadau ym mywydau pawb yn cyfyngu ein heffaith ar yr hinsawdd yn sylweddol. Rhan o'r sgwrs sydd angen inni ei chael yng Nghymru yw beth sy'n deg gofyn i bobl ei wneud.
- Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd (sy'n grŵp o arbenigwyr annibynnol ledled y DU) yn nodi bod dros 60% o'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn gofyn am newid ymddygiadol mewn un ffordd neu'r llall gan y cyhoedd.
- Mae arnom hefyd angen gwell ymwybyddiaeth a gweithredu cyhoeddus er mwyn addasu i effeithiau anochel y newid yn yr hinsawdd, yr ydym eisoes yn eu profi. Mae angen gweithredu'n frys ar draws pob rhan o gymdeithas er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'n helpu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

## Pam mae angen gwella dealltwriaeth y cyhoedd o effeithiau anghildroadwy'r newid yn yr hinsawdd?

- Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn hollol ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd i'w hiechyd, llesiant a chynhyrchedd o ganlyniad i fwy o amlygiad i wres.
- Mae angen i bobl hefyd fod yn ymwybodol o gyfleoedd i feithrin gwytnwch rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn eu cartrefi ac o fewn eu cymunedau, yn enwedig drwy lifogydd.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr argyfyngau natur a hinsawdd, a pham mae cyswllt annatod rhyngddynt?

- Yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd, mae gweithgareddau pobl yn difrodi'r byd naturiol, yn arwain at golli rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion ar raddfa frawychus o gyflym. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, bydd un filiwn o'r wyth miliwn o rywogaethau sydd ar y blaned yn diflannu dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn sbarduno dirywiad natur, ac mae colli bywyd gwyllt a lleoedd gwyllt yn ein gadael yn anghymwys i leihau allyriadau carbon ac addasu i newid. Nid oes modd datrys un heb ddatrys y llall.
- Pan maent yn iach, gall ein cynefinoedd naturiol leihau'r risg o lifogydd, helpu i

atal erydiad arfordirol, gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â chynnal priddoedd iach, dŵr glân a'r peillwyr sydd eu hangen ar gyfer ein cnydau – a thrwy hynny, ein cynnal ni.

Darllenwch fwy am y Newid yn yr Hinsawdd a'r hyn allwn ni i gyd ei wneud i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn: www.climateaction.gov.wales.

## Beth yw ymateb Cymru?


- Yng Nghymru, mae gennym ymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Ystyr Sero Net yw 'allyriadau Sero Net' - sy'n cyfeirio at gyflawni cydbwysedd cyffredinol rhwng yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer.
- **Cymru Sero Net** yw ein cynllun presennol (2il gynllun) i leihau allyriadau ar gyfer y cyfnod rhwng 2021 i 2025, yn gosod y sylfeini i sicrhau bod Cymru'n wlad sero net erbyn 2050.
- Rydym yn wynebu her enfawr wrth gyflawni'r targed sero net, ond mae rhai datrysiadau'n bosibl, a bydd y rhain yn cynnig buddion sylweddol i'r ffordd rydym i gyd yn byw ein bywydau.

## Beth yw pontio teg, a beth ydym yn ei olygu wrth drafod tegwch?

- Mae polisi cyntaf Cymru Sero Net yn canolbwyntio ar yr angen am gyfnod pontio teg at Sero Net.
- Mae hyn yn golygu sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd deg, a sicrhau nad oes neb yn mynd yn angof wrth inni symud at Gymru lanach, gryfach a thecach.
- Gall fod yn anodd diffinio tegwch, ond yn ei hanfod, mae'n golygu gwneud y peth iawn a thrin pawb yn gyfartal.
- Er enghraifft, mae angen inni ystyried sut i ddosbarthu effeithiau cadarnhaol a negyddol y newid yn yr hinsawdd yn deg, pwy sydd ynghlwm â gwneud penderfyniadau, a ph'un a allwn gywiro camgymeriadau'r gorffennol wrth inni wneud newidiadau.


## Pa fuddion fydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau pontio teg yn eu cynnig?

- Gall camau gweithredol cadarnhaol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd a chyfnod pontio teg at sero net gynnig buddion sylweddol i'n hiechyd, cyfoeth a llesiant cyffredinol. Os allwn ni wneud y newidiadau sy'n ofynnol, byddwn yn lleihau biliau ynni, mwynhau deiet iachach, gwella ein hiechyd drwy ymarfer corff yn amlach, anadlu aer glanach ac osgoi llygru ein moroedd ac afonydd. Bydd mynediad at fannau gwyrdd yn gwella ein llesiant meddyliol, a bydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn helpu i feithrin economi mwy gwyrdd sy'n creu swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda. Bydd yr holl newidiadau hyn hefyd yn amddiffyn yr amgylchedd er budd natur ac er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Yn anffodus, gall newid yn yr hinsawdd effeithio fwy ar ein cymunedau a dinasyddion mwyaf bregus nag eraill. Bydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau cyfnod pontio teg yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn osgoi creu, neu waethygu, anghydraddoldebau o fewn cymdeithas, a rhoi cyfle inni wella anghyfiawnderau presennol wrth rannu buddion a beichiau'r cyfnod pontio'n gyfartal rhwng y boblogaeth.



# 2. Cyflwyniad i'r Fframwaith Pontio Teg drafft newydd

- Bydd y Fframwaith Pontio Teg yn ein helpu i sicrhau bod y camau rydym yn eu cymryd i bontio at sero net yn deg, a'n bod yn eu cynnal mewn ffordd deg. Bydd y fframwaith yn nodi dull polisi Llywodraeth Cymru; ymrwymo i gamau sy'n sicrhau tegwch, cysondeb, a chydlyniad; a chefnogi ac arwain sefydliadau i gynllunio ar gyfer y pontio.
- Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y Fframwaith Pontio Teg newydd ym mis Rhagfyr 2023 – bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben ar 11 Mawrth 2024. Bydd y Sgyrsiau am yr Hinsawdd gyda phobl ledled Cymru hefyd yn rhan hanfodol o hyn, yn helpu i gefnogi'r ymgynghoriaeth a llywio gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phontio teg wrth symud ymlaen.
- Y nod yw cyhoeddi'r Fframwaith Pontio Teg terfynol yn 2024.
- Rydym wedi ymrwymo i wneud pethau'n wahanol yma yng Nghymru. Mae gennym ddeddf sy'n ein helpu ni i gyd i gydweithio er mwyn gwella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Ei henw yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddeddfwriaeth arloesol hon yn pwysleisio pwysigrwydd gwrando'n ofalus ar bobl a chymunedau Cymru, ac ymgysylltu â nhw mewn sgyrsiau sy'n mynd i'r afael â materion difrifol, a chynnig rôl go iawn i bobl wrth lywio eu dyfodol.
- Mae Wythnos Hinsawdd Cymru yn cynnig cyfle cenedlaethol i drafod y newid yn yr hinsawdd ac mae'n un o lu o gyfleoedd i sicrhau bod gwahanol leisiau'n cael eu clywed. Yn ogystal â chymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd, os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad, mae dolen ar gael ar wefan Wythnos Hinsawdd Cymru, ar ôl dechrau'r ymgynghoriad.



# 3. Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer trefnu eich sgyrsiau am yr hinsawdd

## Cwestiynau i'w gofyn i lywio sgyrsiau

Bwriad y Sgyrsiau am yr Hinsawdd fydd casglu cymaint o dystiolaeth â phosibl er mwyn cefnogi ymgynghoriaeth ar y 'Fframwaith Pontio Teg' newydd, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r hyn mae tegwch o fewn polisïau gweithredu ar yr hinsawdd yn ei olygu i ddiwydiant a busnes, rhanbarthau, cymunedau ac aelwydydd ledled Cymru, ac er mwyn sicrhau bod safbwyntiau cynifer o bobl â phosibl ledled Cymru'n cael eu clywed.

I gefnogi'r broses, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cyfres o gwestiynau procio i drefnwyr y sgyrsiau am yr hinsawdd, y gellir eu defnyddio i lywio sgyrsiau a chynhyrchu ymatebion a all lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Bydd cyfres o gwestiynau procio'n cael eu hanfon at drefnwyr sgyrsiau am yr hinsawdd a gymeradwywyd cyn Wythnos Hinsawdd Cymru.

## Arddull, fformat ac amseroedd

Mae eich cais am ddigwyddiad wedi'i gymeradwyo oherwydd mae'n cefnogi nodau ac amcanion Wythnos Hinsawdd Cymru, sy'n cynnwys blaenoriaethu sgyrsiau â phobl nad ydynt fel arfer yn cyfrannu'n weithredol at sgyrsiau am yr hinsawdd.

Chi pia'r dewis o ran arddull a fformat eich digwyddiad. Ond dylech drefnu'r digwyddiad mewn ffordd sy'n ymgysylltu eich cynulleidfa, a'u hannog i rannu eu barn a'u safbwyntiau. Dylai'r amgylchedd fod yn gynhwysol a chroesawgar, gyda phawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Mae Wythnos Hinsawdd Cymru yn hyrwyddo rhannu barn, meddwl am syniadau a thrafod manteision ac anfanteision gwahanol ddatrysiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac addasu ar ei gyfer. Er mwyn galluogi hyn, mae'n bwysig rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth am y wyddoniaeth hinsawdd ddiweddaraf, a'r amryw o ffyrdd mae ymddygiad dynol yn effeithio ar ein hinsawdd a'r amgylchedd naturiol.

Dylai trefnwyr ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn y Canllaw hwn i ymgysylltu â chyfranogwyr ac annog sgyrsiau. Mae'r fformat ar gyfer y sgyrsiau hyn yn hyblyg, a gallwch gynnal sgyrsiau un-i-un, mewn grwpiau bach neu ar ffurf fwy, ar arddull theatr. Gwahoddir trefnwyr i recordio eu digwyddiadau (sain neu fideo) dim ond os ydynt wedi cael caniatâd pawb sy'n bresennol.

Cofiwch ystyried eich ôl-troed carbon wrth drefnu'r digwyddiad. Dylid cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb pan fo'n bosibl, yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus (e.e. gorsaf reilffordd a/neu lwybrau bysiau), a dylech ystyried yr opsiwn o wahodd rhai mynychwyr i ymuno'n rhithiol os ydynt yn dymuno gwneud hynny, er mwyn lleihau'r angen i deithio. Dylid creu unrhyw ddeunyddiau arddangos gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, neu ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, a dylech ddefnyddio cynnyrch lleol ar gyfer yr arlwyo, ac osgoi unrhyw blastigau untro.

Nid oes unrhyw amseroedd penodol ar gyfer pa mor hir ddylai eich digwyddiad bara, ond anogir trefnwyr i gynnal digwyddiadau ar adegau sy'n debygol o fod fwyaf cyfleus i'w cynulleidfaoedd. Gwahoddir trefnwyr i gynnal sgyrsiau rhwng 1 Tachwedd 2023 a 31 Ionawr 2024, gyda ffocws penodol ar Wythnos Hinsawdd Cymru (4-8 Rhagfyr) a rhaid cyflwyno pob adroddiad erbyn y dyddiad cau, sef 1 Mawrth 2024. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y Fframwaith Pontio Teg newydd yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2023 – bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben 11 Mawrth 2024.





## 4. Hyrwyddo eich digwyddiad


Ar ôl dewis lleoliad a dyddiad addas, ac ystyried eich cynulleidfa, bydd angen ichi ddechrau hyrwyddo eich digwyddiad. Bydd rhai trefnwyr eisiau gwybod sawl person fydd yn bresennol, ac felly'n dewis cynnal digwyddiadau drwy wahoddiad yn unig, tra bod eraill yn ffafrio digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd, lle all pobl alw heibio ar adegau amrywiol yn ystod y diwrnod.

Fel y trefnydd, chi fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylai pobl gofrestru i fynychu'r digwyddiad ai peidio, sut i lunio a chadw rhestrau gwesteion, a sut i reoli cyfranogwyr ar y diwrnod.

Gallech hyrwyddo eich digwyddiad mewn sawl ffordd, ond dyma rai awgrymiadau i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Rhoi enw bachog i'ch digwyddiad, sy'n disgrifio beth fydd yn digwydd – pwysleisiwch bobl yn gallu dweud eu dweud ar bolisïau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, a'r hyn maent yn ei gredu sy'n deg
- Rhannu eich digwyddiad ar gyfryngau cymdeithasol (dyma'r ffordd rataf a fwyaf amgylcheddol gyfeillgar o hyrwyddo eich digwyddiad, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn blaenoriaethu hyn).
- Fel arfer, mae cynnwys lluniau a fideos yn cael eu rhannu'n fwy helaeth, felly byddwch yn greadigol.
- Ewch ati i greu 'Digwyddiad' ar Facebook, a chreu tudalen Eventbrite – gallwch greu tudalen a mynd ati i'w hyrwyddo am ddim.
- Ewch ati i greu pamffledi neu bosteri syml (gan ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu) i'w harddangos ledled y gymuned leol.
- Ysgrifennwch ddatganiad i'r wasg syml, neu ddisgrifiad o'ch digwyddiad, a'i anfon at eich papur newydd/gorsaf radio leol.
- Cysylltwch â sefydliadau a busnesau lleol amlwg (e.e. cyflogwyr mawr) a'u hannog i hyrwyddo'r digwyddiad drwy eu rhwydweithiau.
- Lawrlwythwch y 'Pecyn Cymorth Hyrwyddo' o wefan Wythnos Hinsawdd Cymru. Yma, gallwch gael mynediad at ystod o ddeunyddiau hyrwyddo, o logos swyddogol i ddelweddau graffeg hyrwyddo, i awgrymiadau ynghylch sut i eirio pethau er mwyn hyrwyddo eich digwyddiad fel rhan o raglen Wythnos Hinsawdd Cymru.

Yn ogystal, bydd tîm Wythnos Hinsawdd Cymru yn cynnwys eich digwyddiad ar y wefan am ddim – www.climateweek.gov.wales. Er mwyn gwneud yn siŵr bod eich digwyddiad wedi'i gynnwys, anfonwch e-bost at walesclimateweek@freshwater.co.uk gyda'r holl fanylion, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut all pobl gofrestru neu fynychu os nad oes cyfyngiad ar bresenoldeb. Os ydych yn trefnu digwyddiad preifat, byddwn yn ei nodi fel digwyddiad drwy wahoddiad yn unig, ond gallwn ei gynnwys ar y wefan o hyd er mwyn cydnabod eich cyfraniad at raglen ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd.



## 5. Cymorth Ariannol

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cyllid i dalu am dreuliau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o drefnu a hyrwyddo eich digwyddiad. Gall hyn dalu am gostau gan gynnwys ffioedd lleoliad, lluniaeth, llogi set ac offer clywedol, yn ogystal â'ch costau hysbysebu. Byddwch wedi manylu ar y costau sydd ynghlwm â threfnu eich digwyddiad yn eich cais i gynnal digwyddiad, a bydd hynny wedi'i gymeradwyo yn yr e-bost gan Freshwater yn cadarnhau ein bod am gynnwys eich digwyddiad yn y rhaglen ddigwyddiadau.

Bydd Freshwater yn hwyluso'r holl daliadau sydd ynghlwm â'r rhaglen ddigwyddiadau, ac yn rhannu'r telerau talu cysylltiedig gyda chi, a fydd un ai wedi'u cytuno arnynt fel ôl-daliadau, neu 50% cyn y digwyddiad a 50% fel ôl-daliadau ar ôl ichi gyflwyno adborth o sgyrsiau a gynhaliwyd yn eich digwyddiad. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y telerau talu cysylltiedig, anfonwch e-bost at dîm Freshwater i walesclimateweek@freshwater.co.uk.

# 6. Rhannu adborth o'ch digwyddiad

Datblygwyd Wythnos Hinsawdd Cymru gan Lywodraeth Cymru fel llwyfan i randdeiliaid hinsawdd gynnal digwyddiadau, rhannu cynnwys a hwyluso sgwrs genedlaethol am y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn i gydnabod y ffaith y bydd dull cydweithredol, ac ymgysylltu â phartneriaid darparu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn cynnig llu o safbwyntiau gwahanol. Mae hefyd yn allweddol wrth lywio a chyflwyno nifer o'r datrysiadau a fydd eu hangen wrth wireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymru fwy gwyrdd, cryf a theg.

Mae'r Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn gyfle pwysig i unigolion sy'n gweithio ar bolisïau hinsawdd y dyfodol wella eu dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol grwpiau cymdeithasol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, a thegwch mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir drwy'r cyfnod pontio at sero net.

Bydd gofyn ichi gynnig adborth ar sgyrsiau a gynhaliwyd yn ystod eich digwyddiad gan ddefnyddio'r templed adroddiad canlynol, yn ddelfrydol o fewn 1-2 wythnos ar ôl y digwyddiad. Rhaid cyflwyno pob adroddiad erbyn y dyddiad cau terfynol, sef 31 Mawrth 2024. Gallwch gwblhau eich adroddiad yn ddigidol, a'i anfon yn ôl atom dros e-bost, neu gallwch ofyn am fersiwn ohono ar Word drwy anfon e-bost i walesclimateweek@freshwater.co.uk.

Dylai eich adroddiad gyflwyno'r wybodaeth ganlynol,,

1. Pryd/ble cynhaliwyd y sesiwn?
2. Sut fyddech chi'n disgrifio'r gynulleidfa (sawl person a fynychodd, oed/rhyw, cefndir ethnig, etc)?
3. Yn eich barn chi, i ba raddau oedd y gynulleidfa'n deall y materion a'r cysyniadau oedd yn cael eu trafod?
4. Pa mor gyfforddus oedd y gynulleidfa wrth rannu eu barn a'u safbwyntiau?
5. Pa gwestiynau procio oedd eich digwyddiad yn canolbwyntio arnynt?
6. Beth oedd y prif themâu a oedd yn dod i'r amlwg o'r sgyrsiau, yn eich barn chi? (nodwch bob un sy'n berthnasol yn eich barn chi)
7. A oedd y cyfranogwyr eisiau rhannu unrhyw negeseuon penodol â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r sgyrsiau a gynhaliwyd?
8. Nodwch unrhyw adborth, safbwyntiau neu awgrymiadau ychwanegol a all fod yn fuddiol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynnal sesiynau neu drafodaethau tebyg yn y dyfodol.
9. Cadarnhewch eich ffi y cytunwyd arni, gan gynnwys unrhyw dreuliau teithio, ar gyfer hwyluso'r sgwrs a chwblhau'r templed adroddiad hwn.

Noder, nid oes angen adolygiadau cymhleth a hir, gan fod gwybodaeth allweddol yn cael ei chofnodi yn ystod y sgyrsiau a gynhaliwyd. Chi fydd perchennog a phrosesydd y data ar gyfer eich digwyddiad, ac ni ddylech gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol y gellir ei chysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a fynychodd eich digwyddiad yn eich adroddiad terfynol. Fel y trefnydd, byddwch yn gyfrifol am gynnal a phrosesu holl ddata personol mynychwyr eich digwyddiad, ac ni ddylech rannu'r data hwn â Llywodraeth Cymru na Freshwater fel trefnydd y rhaglen ddigwyddiadau.



# 7. Sut fydd yr adborth o’ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio

Bydd Llywodraeth Cymru’n casglu adborth o’r holl ddigwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd, ac yn cynnwys y canfyddiadau mewn adroddiad ehangach sy’n crynhoi canlyniadau’r ymgynghoriad ar y Fframwaith Pontio Teg. Bydd adborth o’ch digwyddiad yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio rhaglenni a pholisïau’r Llywodraeth yn y dyfodol er mwyn cefnogi a galluogi cyfnod Pontio Teg, ac er mwyn sicrhau bod tegwch wedi’i ymgorffori mewn datrysiadau i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd. Bydd hefyd yn gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith y newid yn yr hinsawdd (a pholisïau i gefnogi gweithredu dros yr hinsawdd) ar grwpiau ymylol.

Bydd crynodeb o’r adborth o’r digwyddiadau Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn cael ei rannu â phob trefnydd digwyddiad, a byddwch yn cael eich gwahodd i rannu’r crynodeb hwn gyda chyfranogwyr eich digwyddiad.

